

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWIWYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 31ain, GORFFENNAF, 2017.**

**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin (Cadeirydd), Cyng. Eifion Williams, Cyng. John Owen, Cyng. Arwel Ll. Jones; Cyng. Alun Morris, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Mike Rayner Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Austin Roberts

Ar gychwyn y cyfarfod safodd aelodau'r Cyngor ar ei traed fel arwydd o gydymdeimlad o golli y diweddar Cyng. Dewi Wynne Jones.

**Cadarnhau'r Cofnodion**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain Mehefin, 2017.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**CAE CHWARAE MAENAN**

Nododd Cyng. John Owen ei fod wrthi'n gosod canllaw yng Nghae Chwarae Maenan ac yn gobeithio cwblhau y gwaith yn y dyddiau nesaf.

**BWRDD PICNIC I GAE CHWARAE MAENAN**

Trafodwyd y bwrdd picnic ar gyfer y cae chwarae Maenan a pasiwyd i brynu bwrdd o M & K Enterprise, Llanrwst.

**MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH**

Nododd Cyng. John Owen ei fod wedi gosod polion ffens newydd yn y maes parcio Ifan Goch ac y bydd yn gwneud trefniadau i strimio o gwmpas y maes parcio. Diolchodd y Cadeirydd i Cyng John Owen am ei waith.

**TAIR MAINC EISTEDD LLANDDOGED**

Cadarnhawyd fod Mr Elwyn Williams, Tyn Gwern Ucha, Llanddodged yn y proses o atgyweirio a glanhau y dair fainc eistedd yn ardal Llanddodged.

**DIFFIBLIWR I ARDAL MAENAN**

Cyhoeddodd y clerc ei fod wedi derbyn gwybodaeth gan BT fod y blwch ffon wrth Ty'r Ysgol Maenan ddim ar gael ar gyfer gosod diffibiliwr gan fod y cyhoedd y dal i'w ddefnyddio. Awgrymwyd cysylltu gyda Maenan Abbey i edrych os oes diddordeb ganddynt cael un yno ar gyfer ardal Maenan.

**CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

1. Cais Rhif 0/4413 – Cymeradwyo cais materion a gadwyd yn ol mewn perthynas a chais cynllunio 0/40744 (Codi annedd amaethyddol gan osod tanc septig) – Mr Carwyn Evans, Bryn Morfydd Mawr, //Ffordd Efail Uchaf, Llanddodged, Llanrwst. LL26 0UU.

Pasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais uchod.

2. Cais rhif 0/44184 – Gollwng amod rhif 7 o ganiatad cynllunio 0/43259 (Trawsnewid tai allan i lety gwyliau) – Ms Glenda Roberts, Tanlan Farm, Llanrwst Road, Maenan. LL26 0TU.

3. Cais Rhif 0/44214 – Amrywio amod rhif 3 a 4 caniatad cyllunio a roddwyd dan gyfeirnod 0/43259(Trosi adeiladau allanol yn llety gwyliau).

Penderfynwyd a phasiwyd fod dim digon o wybodaeth yn y cais cynllunio rhif 0/44184 a bydd angen cysylltu gyda yr Adran Cynllunio i holi am ragor o fanylion ar yr amod rhif 7 o'r caniatad cynllunio. Bydd y clerc adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf ar ol trafod gyda'r swyddog cynllunio perthnasol.

### **Y GYLLIDEB**

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb am y flwyddyn 2017/18 yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y gyfriflen Banc yn ôl yr arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb.

### **SEDD WAG CYNGOR MAENAN**

Yn dilyn profedigaeth o golli Cyng Dewi Wynne Jones bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Adran Etholiadau Cyngor Conwy i wneud trefniadau o osod hysbysiad o'r sedd wag i fyny yn ardal Maenan,

### **ARWYDDO SIECIAU Y CYNGOR**

Penderfynwyd a phasiwyd i'r canlynol fod yn gyfrifol am arwyddio sieciau y Cyngor – Cyng Michael Rayner a Cyng. Arwel Lloyd Jones o Llanddaged a Cyng. John Owen a Cyng. Nerys Dobson o Maenan. Bydd y clerc yn gwneud trefniadau gyda'r HSBC Banc i gael ffurflen 'Mandate'.

### **CAIS AM RODD ARIANNOL YSGOL GYNRADD LLANDDOGED AM 'CHROMEBOOK'**

Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyng. Austin Roberts yn dilyn y cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Llanddaged Aar yr 27/7/17 fod y gost am 'Chromebook' yn £195 yr un. Pasiwyd drwy godi dwylo i anfon siec am £195 i Ysgol Gynradd Llanddaged.

### **SGIP AR GYFER LLANDDOGED**

Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau i archebu sgip ar gyfer pentref Llanddaged

### **GOHEBIAETH**

1. Derbyniwyd lythyr gan yswiriant AON yn hysbysebu eu bod ddim yn parhau i yswirio Cyngorau Cymuned a bydd cwmni arall o'r enw BHIB Ltd, yn cysylltu gyda'r Cyngor Cymuned pan fydd angen adnewyddu y polisi.

### **CYNNAL A CHADW**

1. Angen torri ochr y cloddiau ar ffordd Bryn Saith, Llanddaged – nodwyd fod hyn yn drydedd flwyddyn yn olynol i'r gwaith yma ddim gael ei gwblhau.
2. Codwyd y mater yn y cyfarfod fod y gwaith o dorri y gwrychoedd yn yr ardal Llanddaged a Maenan ddim o safon dda iawn – arwydd 30 milltir wedi cael ei fachu.
3. Angen bocs halen newydd gornel allt Bryn Rhydd, Maenan.
4. Ffordd yn gostwng rhwng Tyn Coed Uchaf a Cefn Llech Maenan.
5. Angen trwsio twll yn y ffordd wrth Wigfa, Maenan.